

Archwiliad Deintyddol



Beth ydi archwiliad deintyddol?

Mae archwiliad deintyddol yn dangos pa mor iach ydi'ch ceg. Ar ôl yr archwiliad, bydd cyfle i chi a'ch deintydd drafod y canlyniadau a chynllunio'r ffordd orau i ymdrin ag unrhyw broblemau.

Beth fydd fy neintydd yn ei wneud?

Yn ogystal ag edrych ar y tu mewn i'ch ceg, bydd y deintydd yn gofyn ychydig o gwestiynau i chi.

Gallent gynnwys y cwestiynau a ganlyn:

- Pam ydych chi wedi dod am archwiliad?
- 'Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw broblemau (fel poen neu sensitifrwydd)?
- Beth am eich iechyd cyffredinol ac unrhyw foddion yr ydych yn eu cymryd (gan y gall y rhain effeithio ar eich gofal deintyddol)?
- Beth am eich diet (gan y gall diodydd a byrbrydau* sy'n llawn siwgr achosi i'ch dannedd bydru, a chan fod diet cytbwys yn bwysig o safbwynt eich iechyd cyffredinol a'ch ymwrthedd* i afiechydon)?
- Sut ydych chi'n glanhau eich dannedd (gan fod glanhau eich dannedd yn gywir yn helpu i atal pydredd* dannedd a chlefyd y gorchfan*)?
- Beth am eich defnydd o dybaco ac alcohol (gan y gall y ddau achosi niwed i'ch ceg yn ogystal ag i'ch iechyd cyffredinol)?

Bydd rhai o'r cwestiynau'n dibynnu ar beth y mae'r deintydd yn ei weld yn eich ceg.

Dylech ddisgwyl i'ch deintydd wneud y canlynol:

- edrych ar eich wyneb a'ch gwddf i weld a ydynt yn iach.
- teimlo o dan eich gê.
- edrych y tu mewn i'ch ceg, ar eich tafod, eich bochau a'ch gwefusau, to'ch ceg a chefn eich gwddf (llefydd lle mae problemau'n bosib heb i chi allu eu gweld na'u teimlo).
- edrych ar eich dannedd a'ch gorchfannau i weld a ydynt yn iach ai peidio, neu a oes arwyddion o bydredd, niwed neu glefyd y gorchfan. O safbwynt plant, bydd y deintydd hefyd yn edrych ar ddatblygiad y dannedd a'r ên, rhag ofn bod angen triniaeth orthodontegol yn awr neu yn y dyfodol
- cymharu'ch ceg yn awr â sut yr oedd pan welodd chi ddiwethaf.
- penderfynu a oes angen rhagor o wybodaeth drwy belydrau-x, neu o fodolau plastr sy'n dangos sut mae'ch dannedd yn brathu at ei gilydd.
- dweud wrthyhch am unrhyw driniaeth y gallech fod ei hangen, gan egluro'r dewisiadau ac unrhyw gost bosib.

Os ydych chi'n gweld deintydd newydd am y tro cyntaf, mae'n bosib y bydd yr archwiliad yn cymryd mwy o amser nag arfer.

Beth ydi'r manteision?

- Mae archwiliadau cyson yn golygu y gall eich deintydd sylwi ar broblemau a'u datrys yn gynnar cyn i'r driniaeth fynd yn gymhleth.
- Mae archwiliad trylwyr yn eich helpu chi a'ch deintydd i edrych ar ôl eich ceg, ac atal problemau yn y dyfodol. Bydd y deintydd yn egluro'r dewisiadau ac yna, gyda'ch gilydd, gellwch benderfynu beth sydd orau i chi.

GEIRFA: byrbryd(au) = *snack(s)*; clefyd y gorchfan = *gum disease*; gorchfan(nau) – 'gym(s)' ar lafar = *gum(s)*; pydredd = *decay*; ymwrthedd = *resistance*